Ombwdsmon Ombudsman Cymru · Wales

# Derbyn i Ysgolion ac Apeliadau

## Cynnwys

Dylid cwyno ynghylch derbyn i ysgolion i'r Awdurdod Lleol perthnasol yn y lle cyntaf, ond gallwch gwyno ynghylch apeliadau derbyn i ysgolion yn syth i ni.

## Yr hyn gallwn ei wneud

Gallwn:

- edrych ar gwynion ynghylch gweithdrefnau derbyn i ysgolion yng Nghymru, a'r broses apelio ar gyfer derbyn i ysgolion;
- edrych ar gwynion gan rieni sy'n credu bod Awdurdod Lleol wedi gweithredu ei weithdrefn derbyn i ysgolion yn annheg;
- edrych ar gwynion gan rieni sy'n credu bod Panel Apêl Derbyn i Ysgolion wedi ymddwyn yn amhriodol.

Os ydych yn dymuno cwyno i ni, cofiwch wneud hynny cyn gynted â phosibl.

## Yr hyn na allwn ei wneud

Ni allwn:

- gorfodi Awdurdod Lleol i gynnig lle mewn ysgol i'ch plentyn;
- mynd yn groes i benderfyniad a wnaed gan Banel Apêl Derbyn i Ysgolion – fodd bynnag, os ydym yn credu bod gwrandawiad y Panel yn amhriodol neu'n annheg, efallai y byddwn yn argymell bod Panel newydd yn clywed yr apêl;

- edrych i achosion derbyn neu apeliadau yng nghyswllt ysgolion Annibynnol.

## Materion i gadw mewn cof

- Nid oes gan blentyn hawl absoliwt i le yn ysgol ddewisol y rhieni;
- Pan fydd mwy o geisiadau i fynychu ysgol na'r lle sydd ar gael, rhaid i Awdurdodau Lleol ddefnyddio eu 'meini prawf ysgolion gorlawn' i flaenoriaethu'r ceisiadau. Yn gyffredinol, ni all fod mwy na 30 plentyn mewn dosbarth babanod;
- Mae Paneli Apêl yn anibynnol ar yr Awdurdod Lleol ac yn clywed achosion yr Awdurdod Lleol a'r rhieni;
- Mae rhaid i Baneli Apêl benderfynu a ddylai rhesymau'r rhieni dros fod eisiau i'w plentyn gael ei dderbyn i ysgol neilltuol droi'r fantol yn erbyn unrhyw anfantais i'r ysgol pe bai'n derbyn eu plentyn.
- Pan fyddwch yn cwyno wrthym, **rhaid** i chi ddarparu copi o benderfyniad y Panel Apêl ar eich apêl. Ni allwn ystyried cwyn nes i chi dderbyn llythyr y penderfyniad a darparu copi ohono i ni. Ble bynnag bo'n bosibl, rhowch hefyd y dogfennau a ystyriwyd gan y Panel yn ystod yr apêl.

## Gwybodaeth bellach

Rhaid i Awdurdodau Lleol a Phaneli Apêl Derbyn i Ysgolion ystyried y Codau Statudol ar Dderbyn i Ysgolion ac Apeliadau. Gallwch lawrlwytho copïau o wefan Llywodraeth Cymru yn

https://llyw.cymru/y-cod-derbyn-i-ysgolion

https://llyw.cymru/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion

## Cysylltu â ni

Os ydych yn ansicr a fyddwn yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni, drwy ffonio 0300 790 0203.

## Hawdd ei Ddarllen

Derbyn i Ysgolion ac Apeliadau